Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Rebecca Evans AC/AM
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-8151-16

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

30 Mawrth 2017

Annwyl Lynne,

Tystiolaeth ddilynol 18 Ionawr 2017

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Mawrth yn gofyn am ragor o wybodaeth am amryw o feysydd wedi inni fod yn bresennol yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Ionawr 2017.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
Mewn perthynas â'r cais a amlinellwyd yn eich llythyr; ysgrifennwyd atoch ar 2 Chwefror 2017 ynglŷn â'r targed o 28 o ddiwrnodau. Roedd ein llythyr yn cadarnhau ein bod yn casglu data, ac yn eu cyhoeddi, mewn perthynas â'r amseroedd aros yn erbyn y targed sy'n berthnasol i'r wybodaeth yr ydych yn ei cheisio, a'n bod wedi bod yn gwneud hynny ers 2010.

Roedd y llythyr hefyd yn darparu dolen i wefan StatsCymru lle gallwch weld y data ac ymchwilio iddynt. Roedd y ddolen isod wedi'i chynnwys fel cymorth ichi:
https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Hospital-Waiting-Times/Inpatient-and-Outpatient-Waiting-Times-for-Non-RTT-Specialties/waitingtimes-by-specialty-patienttype

Mewn perthynas â'r asesiadau 48 awr brys, er nad ydym yn casglu data ar y targed o 48 awr ar gyfer cael mynediad at asesiad brys, mae'r Byrddau Iechyd yn rhoi sicrwydd inni fod y targed hwnnw yn cael ei fodloni.

Fframwaith ar Gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru
Bydd lansiad y Fframwaith ar Gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru yn cael ei gynnal erbyn dydd Iau 18 Mai yn Ysgol Bae Baglan. O ganlyniad i wyliau ysgol a'r baich ychwanegol y mae arholiadau wedi'i roi ar ein hysgolion, bu oedi cyn cynnal y lansiad. Fodd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bynnag, byddwn yn hapus i ddarparu copi o'r Fframwaith ar Gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion terfynol ichi cyn y dyddiad lansio, pan fydd y fersiwn derfynol honno'n barod i'w rhannu.

Hyderaf fod yr ymateb hwn wedi bod o ddefnydd ichi.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport

Rebecca Evans AC/AM
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health